



Cymdeithas y Cyfreithwyr
The Law Society

Mr Ustus David Lloyd Jones

Mr Ustus Lloyd Jones yw Uwch Farnwr Llywyddol Cymru.

Fe'i anwyd a'i fagwyd ym Mhontypridd a mynychodd yr Ysgol Ramadeg i Fechgyn ym Mhontypridd a Choleg Downing, Caergrawnt lle bu'n Gymrawd o 1975 i 1991.

Bu'n Gofiadur ar Gylchdaith Cymru a Chaer o 1989 i 2005 ac yn Gwnsler Iau y Goron (Y Gyfraith Gyffredin) o 1997 i 1999 pan benodwyd ef yn Gwnsler y Frenhines. Ym mis Hydref 2005, fe'i penodwyd yn Farnwr yr Uchel Lys yn Adran Mainc y Frenhines.

Mae'n Gadeirydd Pwyllgor Sefydlog yr Arglwydd Ganghellor ar yr Iaith Gymraeg ac yn Ddirprwy Gadeirydd y Comisiwn Ffiniau Llywodraethol i Gymru.

Yn ddiweddar, derbyniodd Radd er Anrhydedd - Doethur yn y Cyfreithiau gan Brifysgol Morgannwg.

PEIRIANWAITH CYFIAWNDER MEWN CYMRU SY’N NEWID SYR DAVID LLOYD JONES

Mae darlithoedd diweddar yn y gyfres hon wedi edrych ar y newidiadau mawr sydd wedi digwydd ym mheirianwaith y llywodraeth yng Nghymru yn y blynyddoedd diweddar fel rhan o'r broses ddatganoli.¹ Maent wedi canolbwyntio'n bennaf ar y pwerau gweithredol a deddfwriaethol sydd wedi trosglwyddo i sefydliadau newydd yng Nghymru dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 a Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae Adroddiad Confensiwn Cymru Gyfan a gadeiriwyd gan Syr Emyr Jones Parry'n tynnu sylw at agwedd arall o ddatganoli, gan nodi "wrth i ddatganoli ddatblygu, mae'n rhaid rhoi ystyriaeth lawn i rôl a statws y farnwriaeth yng Nghymru".² Gyda hyn mewn golwg, meddyliais efallai y byddai'n ddefnyddiol i fwrw golwg ac adrodd ar sefyllfa bresennol a gweithrediad cangen farnwrol y llywodraeth yng Nghymru, ac i ba raddau y mae'n addasu i gwrdd ag anghenion datganoli. Felly, y pwnc rwyf wedi ei ddewis yw 'Peirianwaith Cyfiawnder mewn Cymru sy'n Newid'. Ni allaf feddwl am well adeg i geisio cynnal arolwg o'r fath.³ Ni allaf feddwl am well lle i wneud hynny nag yn yr Eisteddfod Genedlaethol – yng nghalon gwareiddiad a bywyd Cymru. Felly, rwyf yn ddiolchgar i Gymdeithas y Cyfreithwyr am y gwahoddiad i gyflwyno'r ddarlith hon pnawn heddiw.

Wrth gwrs, nid oes gan Gymru ei system gyfreithiol ei hun. Yn wahanol i'r Alban a Gogledd Iwerddon, nid yw Cymru'n awdurdodaeth ar wahân o fewn y Deyrnas Unedig. Mae Cymru a Lloegr yn rhannu un system gyfreithiol. Roedd "Deddfau Uno" (honedig) 1536 a 1543 yn dileu cyfraith Cymru ac yn nodi bod rhaid i Gymru fod yn atebol i Gyfraith Loegr. Mae'n wir fod system lysoedd newydd

¹Carwyn Jones AC, Law in Wales – The Next Ten Years, Darlith Cymdeithas y Cyfreithwyr, Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Caerdydd ar Fro (2008); Yr Arglwydd Elis-Thomas CG, AC, Wales's New Constitution – The First Two Years, Darlith Cymdeithas y Cyfreithwyr, Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Meirion ar Fro (2009).

²Adroddiad Confensiwn Cymru Gyfan, paragraff 3.09.25.

³Dywed Timothy H. Jones a Jane M. Williams yn Wales as a Jurisdiction, [2004] Public Law 78, 101, na fu cyfnod mwy diddorol i arsylwi'r system gyfreithiol yng Nghymru. Mae llawer iawn wedi digwydd ers hynny. Barn ddiweddar sy'n rhoi goleuni yw un Syr Roderick Evans yn ei Ddarlith Goffa i'r Arglwydd Callaghan, 2010. <http://www.judiciary.gov.uk/docs/speeches/justice-roderick-evans-lord-callaghan-lecture-2010.pdf>

wedi cael ei chreu ar gyfer Cymru'r adeg hynny, sef Llysoedd y Sesiwn Fawr, a oedd yn gweinyddu cyfiawnder brenhinol yng Nghymru, ac eithrio Sir Fynwy, tan 1830.⁴ Fodd bynnag, daethant yn wasaidd i lysoedd Lloegr a dangoswyd eu huchafiaeth drwy, er enghraifft, benderfyniad Llys Mainc y Brenin ym 1723 yn **R v. Athos**. Cyhuddwyd Thomas Athos, Maer Dinbych-y-pysgod, a'i fab o lofruddiaeth. Llwyddodd y Twrnai Cyffredinol i symud yr achos o Lys y Sesiwn Fawr yn Sir Benfro i Frawdlys Hwlfordd lle cawsant eu dyfarnu'n euog. Ar herio ei awdurdodaeth, penderfynodd Llys Mainc y Brenin gadarnhau'r euogfarnau. Yn fuan yn yr achos, dywedodd y llys hwnnw:

“it was very difficult to have justice done in Wales by a jury of Welshmen, for they are all related to one another, and therefore would rather acquit a criminal than have the scandal that one of their name or relations should be hanged; and that to try a man in Wales for murder was like trying a man in Scotland for high treason, those being crimes not much regarded in those respective places.”⁵

Yn y modd hwn, yn ystod y ddeunawfed ganrif sefydlodd Llys Mainc y Brenin yn Llundain awdurdodaeth gyddredol â Llysoedd y Sesiwn Fawr dros faterion yng Nghymru. Yn y pen draw, arweiniodd hyn at ddirywiad Llysoedd y Sesiwn Fawr a'i ddiddymiad ym 1830 pan gafodd y system Brawdlysoedd ei hymestyn i Gymru. Wedi hynny, nid oedd fawr o wahaniaeth rhwng peirianwaith cyfiawnder yng Nghymru a'r un oedd yn gweithredu yn Lloegr.⁶

Nid yw gweinyddu cyfiawnder yn faes sydd wedi cael ei ddatganoli eto. Fodd bynnag, mae datganoli eisoes wedi cael dylanwad mawr ar weinyddu cyfiawnder

⁴Roedd Deddf Tymhorau'r Gyfraith 1830 yn dileu Llysoedd y Sesiwn Fawr. Goroesodd Cyngor Cymru a'r Gororau a sefydlodd Edward IV tan 1689. Thomas Glyn Watkin, The Legal History of Wales (2007) 120, 153.

⁵(1723) 8 Mod. 136. Gweler Syr David Williams CF, The Law of England and Wales: The Welsh Contribution, (2005) Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion 161, 166-7 lle mae'r awdur yn gwneud cymhariaeth â threial Saunders Lewis, y Parch Lewis Valentine a D.J. Williams yn yr Old Bailey ym 1936.

⁶Syr John Thomas, Legal Wales: Its Modern Origins and its role after Devolution: National Identity, the Welsh Language and Parochialism, 1 Welsh Legal History Society 113, sy'n rhoi cyfrif diddorol o'r cynigion aflwyddiannus yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif i sicrhau bod anghenion gwahanol Cymru yn cael eu cydnabod o fewn system gyfreithiol Cymru a Lloegr.

mewn nifer o ffyrdd. Rwyf am sôn am dri yn unig nawr. Yn gyntaf, mae meysydd fel iechyd, addysg, a gofal cymdeithasol wedi cael eu datganoli ac mae'r rhain yn faterion y mae ein llysoedd yn delio â nhw bob dydd. Ac ymhellach, mae yna erbyn hyn driwlynlysoedd hollol Gymraeg, sy'n penderfynu achosion yn y meysydd datganoledig hyn, megis triwlynlys Anghenion Addysg Arbennig Cymru a Thriwlynlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru. Yn ail, mae'r pwerau a roddwyd i Gynulliad Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru'n golygu bod y camau cyntaf yn cael eu cymryd tuag at ddatblygu corff o gyfreithiau ar wahân ar gyfer Cymru mewn rhai meysydd penodol. Am y tro cyntaf ers dechrau'r unfed ganrif ar bymtheg, mae siarad am gyfraith Cymru yn golygu rhywbeth. Yn drydydd, mae newidiadau wedi digwydd ynglyn â'r berthynas rhwng cangen farnwrol y llywodraeth a'r cyrff newydd y mae'r broses ddatganoli wedi eu creu. Nid yn unig at reolaeth farnwrol o'r pwerau gweithredol ar ffurf adolygiad barnwrol ynghylch gweithrediad gweinyddol gan Weinidogion Cymru rwy'n cyfeirio yma. Rwy'n cyfeirio hefyd at greu sianeli cyfathrebu priodol rhwng y farnwriaeth a sefydliadau newydd y llywodraeth yng Nghymru. Mae'n ymddangos i mi, felly, bod hwn yn adeg priodol i feddwl am y ffyrdd y mae gweinyddu cyfiawnder yn addasu i'r sefyllfa newidiol.

Rydym wedi dod ymhell iawn mewn ychydig dros ddegawd ers pasio Deddf Llywodraeth Cymru 1998. Fy marn bersonol i yw ei fod yn ddiffyg mawr na fu confensiwn cyfansoddiadol cyn hynny i ystyried y pwerau a'r strwythurau sy'n briodol i Gymru ddatganoledig. Fel y digwyddodd hi, yng ngeiriau'r Athro Syr David Williams, "Wales was whisked into devolution on the hem of a kilt". Ers hynny, rydym wedi gweld newidiadau mawr i'r setliad datganoli ac rydym wedi cael ein hatgoffa, yn briodol, bod datganoli'n broses barhaus. Rydym ni i gyd yn gwybod bod cynigion ar hyn o bryd a fydd, os byddant yn cael eu derbyn, yn dod â mwy o newidiadau mawr i systemau gweithredol a deddfwriaethol a ddatganolwyd yng Nghymru. Yn anochel, mae barn ynglŷn â ffurf unrhyw newidiadau i ddod, ac ynglŷn â chyflymdra'r newid yn amrywio'n fawr.

Roedd Confensiwn Cymru Gyfan, a gyflwynodd adroddiad y llynedd, yn delio'n uniongyrchol â'r cwestiwn sylfaenol – a yw bellach yn amser i Gymru gael ei

hawdurdodaeth gyfreithiol ei hun? O ystyried y newidiadau sydd wedi digwydd eisoes, a'r newidiadau sy'n debygol o ddigwydd, a ddylai Cymru bellach gael ei system gyfreithiol ei hun, ar wahân i un Lloegr? Bu ymgynghori eang, a gwelwyd mai'r farn gyffredinol yng Nghymru oedd nad oedd angen awdurdodaeth ar wahân ar hyn o bryd. Daeth i'r casgliad, er bod ar Gymru angen sefydliadau a systemau cyfreithiol priodol i gefnogi hwyluso datganoli a datblygiad cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, nid oes rhaid cael awdurdodaeth ar wahân yng Nghymru er mwyn cynyddu cymhwysedd deddfwriaethol, hyd yn oed pe bai Cymru'n cael yr un pwerau sylweddol â model yr Alban. Roedd yn ystyried y cwestiwn mewn cyd-destun eang ac yn casglu bod llysoedd Cymru a Lloegr yn gymwys iawn i benderfynu achosion sy'n delio â deddfau Cymru a Lloegr, deddfau Cymru'n unig a chyfraith yr Undeb Ewropeaidd. Mae'n debygol, felly, y bydd Cymru, hyd y gellir ei ragweld o leiaf, yn parhau i rannu un awdurdodaeth â Lloegr. Fodd bynnag, wrth ddod i'r casgliad hwnnw, roedd yn gwneud dau bwynt pwysig arall hefyd. Y cyntaf oedd, pwysleisio'r angen am wiriadau cyfreithiol ar waith deddfwriaethol a gweithredol, gyda dyfarniadau a rhwymedïau yn haws i gael gafael arnynt yng Nghymru. Yn ail, roedd yn ei ystyried yn hanfodol bod strwythurau cyfreithiol yng Nghymru'n cydsymud â datganoli gwleidyddol, a bod y gallu a'r adnoddau cyfreithiol yn cael eu cryfhau. Dywedai ei bod yn hanfodol bod gweinyddiaeth y gyfraith yng Nghymru'n ystyried deddfwriaeth Cymru, a'i bod yn fwy sensitif i ddatganoli.⁷ Dan yr amgylchiadau hyn, mae'n briodol gofyn i ba raddau y mae anghenion unigol ac arbennig Cymru'n cael eu hystyried o fewn system gyfreithiol gyfunol Cymru a Lloegr.

Yn hyn o beth, mae'n bwysig nodi diwygiad pwysig o ran unedau gweinyddol y system llysoedd a gyflwynwyd yn 2007. Cyn hynny, roedd y llysoedd yng Nghymru'n cael eu gweinyddu gyda llysoedd Swydd Gaer fel Cylchdaith Cymru a Chaer. Dair blynedd yn ôl, trosglwyddwyd y llysoedd yn Swydd Gaer i Gylchdaith y Gogledd ac mae Cymru bellach yn sefyll ar ei phen ei hun fel uned weinyddol o

⁷Adroddiad Confensiwn Cymru Gyfan, paragraff 3.9.22.

fewn system gyfreithiol Cymru a Lloegr ac yn gyflled â thiriogaeth Cymru. Mae'r Barnwyr Llywyddol bellach yn Farnwyr Llywyddol Cymru, ac o fewn Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi ceir uned weinyddol ar wahân, sef GLIEM Cymru gyda'i Gyfarwyddwr ei hun. Roedd y newid hwn yn un anodd i lawer o bobl, yn arbennig i aelodau'r Bar oedd yn ymarfer yn bennaf yng Ngogledd Cymru o siambrau yng Nghaer. Mae'n anodd dileu hen deyrngarwch, ac mae'r Bar wedi cadw hen enw eu cymdeithas broffesiynol, a sefydlwyd ym 1945, sef Bar Cylchdaith Cymru a Chaer. Fodd bynnag, nid oes amheuaeth bod trefn weinyddol newydd y llysoedd yn gwneud synnwyr mewn cyfnod o ddatganoli, gan y bydd o leiaf yn hwyluso'r berthynas rhwng y farnwriaeth ac adrannau eraill y llywodraeth ac asiantaethau cyfiawnder eraill yng Nghymru. Mae wedi hyrwyddo'r amcan i gynnal achosion o Gymru yng Nghymru. Ar ben hynny, y mae, heb os, wedi gwella hunaniaeth Gymreig y farnwriaeth sy'n gwasanaethu yng Nghymru.

Y farnwriaeth yng Nghymru

Er bod llawer o'r ddarlith hon yn sôn am y gwahaniaethau rhwng Cymru a Lloegr, mae'n bwysig cofio bod gan y ddwy genedl lawer o bethau'n gyffredin. Yn arbennig felly, y traddodiad pwysig rydym yn ei rannu yn y gyfraith gyffredin, lle gwelir fod sawl Cymro wedi cyfrannu'n nodedig tuag ati yn ystod y pum canrif ddiwethaf. Mae Cymru wedi bod yn 'allforio' cyfreithwyr ers talwm iawn, ac ers yr Oesoedd Canol mae lluo o Gymry wedi crwydro'r llwybrau i Ysbytai'r Brawdlys. Nid yw'n syndod, felly, fod barnwriaeth proffesiynol sydd â hunaniaeth Gymreig gref iawn yn gwasanaethu Cymru heddiw. I raddau helaeth, mae barnwyr Cymru yn ddynion a merched o Gymru sydd wedi ymarfer y gyfraith naill ai yng Nghymru neu yn Llundain cyn cael eu penodi i'r farnwriaeth yma.

Peidiwch â gadael i'r teitl rwyf wedi ei ddewis ar gyfer darlith heddiw, sef Peirianwaith Cyfiawnder mewn Cymru sy'n Newid, gymylu'r ffaith sylfaenol bod cyfiawnder yn cael ei weinyddu yng Nghymru gan rai dynol, er lles rhai dynol.. Ar hyn o bryd, mae 34 o Farnwyr Cylchdaith a 32 o Farnwyr Rhanbarth yn eistedd yn amser llawn yng Nghymru, ac yn gwrandao achosion troseddol a sifil. Yn eu harwain mae dau Farnwr Uchel Lys sy'n cael eu penodi'n Farnwyr Llywyddol ar gyfer Cymru am gyfnod o bedair blynedd. Ar hyn o bryd, Griffith Williams J. a minnau yw'r rheiny. Rydym ein dau yn eistedd yn Llundain am hanner y flwyddyn yr un, ar hanner arall yng Nghymru. Yn ogystal â hyn, mae Barnwyr Uchel Lys arbenigol yn gweithredu fel Barnwyr Cyswllt ar gyfer Cymru yn Adran

Mainc y Frenhines, yr Adran Teulu a'r Adran Siawnsri. Mae Barnwyr Uchel Lys eraill yn eistedd yng Nghymru o bryd i'w gilydd yn ystod y flwyddyn.⁸ Ar hyn o bryd mae chwe Chymro ac un Gymraes ar Fainc yr Uchel Lys a phum Arglwydd Ustus Cymraeg yn y Llys Apêl, sy'n nifer fwy nag erioed. Heddiw, mae barnwyr ar bob lefel yn cael eu penodi yn dilyn cystadlaethau a drefnwyd gan y Comisiwn Penodiadau Barnwrol, ac mae'n ofynnol i'r comisiwn gael aelod Cymraeg.

Yr Arglwydd Brif Ustus yw pennaeth y farnwriaeth yng Nghymru a Lloegr. Ym 1998, fe wnaeth yr Arglwydd Brif Ustus ar y pryd, sef yr Arglwydd Bingham o Cornhill, y penderfyniad gweithredol mai "Arglwydd Brif Ustus Cymru a Lloegr" y dylai teitl ei swydd fod. Deiliad y swydd honno ar hyn o bryd yw'r Arglwydd Judge, ac mae'n sicr yn cymryd ei ddyletswyddau fel Arglwydd Brif Ustus Cymru o ddifrif. Mae'n dod i Gymru'n aml i wrando achosion, i gyflwyno darlithoedd, ac i gyfarfod â barnwyr a Gweinidogion Cymru. Mae ei arweinyddiaeth ysbrydoledig wedi cyfrannu'n helaeth at deimlad o golegoldeb ymysg y farnwriaeth yng Nghymru.

Mae bron bob awdurdodaeth arbenigol yn cael ei chynrychioli yng Nghymru. Mae Barnwr Siawnsri ar gyfer Cymru⁹, Barnwr Masnach ar gyfer Cymru a Barnwyr sy'n eistedd yn y Llys Technoleg ac Adeiladwaith yng Nghymru. Mae'r barnwyr hyn wedi eu lleoli yng Nghaerdydd ond yn eistedd ble bynnag yng Nghymru y mae'r angen. Mae'r Llys Gweinyddol yn eistedd ledled Cymru – mater o bwysigrwydd cyfansoddiadol y byddaf yn dychwelyd ato. Yr unig awdurdodaeth arbenigol nad yw'n cael ei gynrychioli yng Nghymru yw awdurdodaeth y Morlys, a gobeithiaf y bydd hynny'n newid cyn hir.

Fel gyda bron bob agwedd o fywyd yng Nghymru, mae daearyddiaeth a'r ffaith ei bod hi'n anodd teithio rhwng y Gogledd a'r De yn creu problemau. Yn anochel,

⁸Mewn newid mawr, roedd Deddf Gweinyddu Cyfiawnder 1970 yn galluogi'r Uchel Lys i eistedd tu allan i Lundain ac nid oedd rhaid cychwyn achosion sifil yn Llundain, eu gwrandio yn nisi prius yn y llys sirol ac yna'u pasio'n ôl i Lundain ar gyfer dyfarniad. Roedd Deddf y Llysoedd 1971 yn dileu'r Brawdlysoedd a'r Llys Chwarter. Thomas Glyn Watkin, n. 4 uchod, 195.

⁹Wrth agor y Llys Masnach yng Nghaerdydd yn 2000, dywedodd yr Arglwydd Bingham, yr Arglwydd Brif Ustus ar y pryd: "This court represents the long overdue recognition of the need for the Principality of Wales to have its own indigenous institutions operating locally and meeting the needs of its citizens here. This court is another step towards recognising Wales as a very proud, distinctive and successful nation."

mae mwyafrif y barnwyr sy'n eistedd yn barhaol yng Nghymru wedi eu lleoli yn y De-Ddwyrain lle mae mwyafrif y boblogaeth yn byw a mwyafrif yr achosion yn codi. Ers y toriad oddi wrth Swydd Gaer, dim ond chwe Barnwr Cylchdaith a phum Barnwr Rhanbarth sydd wedi eu lleoli yng Ngogledd Cymru Mae'r Barnwyr Llywyddol yn awyddus i osgoi sefyllfa lle mae'r rhain wedi eu hynysu oddi wrth eu cydweithwyr yn Ne Cymru. O ganlyniad, gwnaed trefniadau i Farnwyr Cylchdaith eistedd mewn llysoedd gwahanol i'w llysoedd arferol. Mae'r traffig hwn rhwng y Gogledd a'r De wedi cyfrannu'n helaeth at gynyddu colegoldeb y farnwriaeth yng Nghymru, ysgogydd sydd wedi ei hybu ymhellach gan gyfarfodydd rheolaidd y farnwriaeth. Heblaw hynny, sefydlwyd yn ddiweddar Cymdeithas Barnwyr Cymru. Yr Arglwydd Brif Ustus yw Llywydd y gymdeithas, ac mae barnwyr sy'n gwasanaethu a'r barnwyr hynny sydd wedi ymddeol yn aelodau o'r gymdeithas.

Rwy'n falch o allu dweud wrthyh fod barnwyr Cymru'n weithgar dros ben. Yn ddiweddar, rhoddwyd canmoliaeth i Lysoedd y Goron yng Nghymru gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol am fod y llysoedd mwyafrif effeithlon yng Nghymru a Lloegr. Caiff hyn ei gyflawni drwy waith caled y barnwyr a staff y llysoedd ac rwy'n falch iawn o gael y cyfle hwn i dalu teyrnged i'w gwaith. Wrth gwrs, nid ydym yn cael pethau'n iawn bob amser, ac mae'n rhaid cael darpariaeth ar gyfer apeliadau. Mae'r Llys Apêl wedi ei leoli yn Llundain, ond mae Adran Sifil ac Adran Droseddol y Llys Apêl yn eistedd yn rheolaidd yng Nghaerdydd yn gwrando apeliadau o Gymru. Felly, ym mis Mehefin eisteddodd y Llys Apêl yng Nghaerdydd ar fyr rybudd i wrando apêl yn ymwneud â'r rhaglen difa moch daear arfaethedig ac ym mis Gorffennaf eisteddodd yno eto, y tro hwn gyda Meistr y Rholiau'n llywyddu. Wrth gwrs, nid yw bob apêl o Gymru'n cael gwrandawriad yng Nghymru, ond mae'r ffaith fod y Llys Apêl yn eistedd yng Nghymru, yn cydnabod yn agored bod sefyllfa gyfansoddiadol wahanol yng Nghymru wedi'r datganoli, ac yn cydnabod pwysigrwydd Caerdydd fel prifddinas. Dyma'r unig le, ar hyn o bryd, y mae'r Adran Sifil yn eistedd tu allan i Lundain.

Hyd yma, nid wyf wedi dweud dim am ein milwyr ar flaen y gad. Caiff yr Ynadon Heddwch eu penodi gan y Comisiwn Penodiadau Barnwrol. Ar hyn o bryd, mae 1,833 o ynadon yng Nghymru, yn eistedd ar 23 o feinciau. Mae'r ynadon lleyg hyn yn eistedd yn y llysoedd Ynadon, lle byddant yn gwrando 95% o'r achosion

troseddol yng Nghymru, ond mae ganddynt hefyd awdurdodaeth bwysig yn trwyddedu ac yn y Llysoedd Achosion Teulu lle byddant yn gwrando, yn benodol, achosion sy'n ymwneud â chystodaeth plant. Fel hyn, maent yn chwarae rôl hanfodol yn y gwaith o weinyddu cyfiawnder yng Nghymru. Maent hwythau hefyd wedi creu sefydliadau sydd â phroffil Cymreig amlwg: Fforwm Cadeiryddion Mainc Cymru a Phwyllgor Cymdeithas yr Ynadon yng Nghymru.

Yn eu hawdurdodaeth droseddol maent yn cael eu cynorthwyo gan chwe Barnwr Rhanbarth (Llysoedd Ynadon), aelodau proffesiynol o'r farnwriaeth sy'n eistedd yn unigol i wrando treialon diannod. Y rhain yw'r olynwyr i'r Ynadon Cyflogedig a benodwyd i eistedd am y tro cyntaf yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Cyfeiriodd yr Athro Thomas Glyn Watkin at eu cyfraniad doeth a sylweddol at gadw trefn gyhoeddus yng nghymoedd De Cymru gan mlynedd yn ôl.¹⁰ Yn ffodus, nid ydym yn wynebu'r fath broblemau bellach, ond mae eu holynwyr yn parhau i wneud cyfraniad pwysig at weinyddu cyfiawnder ar lefel leol.

Gweinyddu'r llysoedd a chyfranogwyr eraill yn y sector cyfiawnder.

O fewn cangen weithredol y llywodraeth, mae'r cyfrifoldeb tros weinyddu cyfiawnder yng Nghymru a Lloegr yn disgyn ar y Weinyddiaeth Cyfiawnder, dan arweiniad Gweinidog y Cabinet sy'n cyflawni dwy rôl: Rôl yr Arglwydd Ganghellor, a rôl yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder. Cyfrifoldeb Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi, asiantaeth o fewn y Weinyddiaeth Cyfiawnder, yw'r gwaith o drefnu a rhedeg y llysoedd. Rheolir cysylltiadau rhwng GLIEM a'r farnwriaeth gan Gytundeb Fframwaith rhwng yr Arglwydd Ganghellor a'r Arglwydd Brif Ustus. Yng Nghymru, mae GLIEM Cymru, dan ei Gyfarwyddwr Clare Pillman, yn cydweithio'n agos â dau Farnwr Llywyddol Cymru i reoli'r system gefnogi sy'n galluogi'r barnwyr i gyflawni eu swyddogaethau annibynnol. Mae GLIEM Cymru yn gyfrifol, ymysg pethau eraill, am gyllido a gweinyddu'r gwaith o redeg y llysoedd o ddydd i ddydd, cyflogi staff y llysoedd, a darparu a chynnal a chadw adeiladau llysoedd. Am y flwyddyn hon, mae gan GLIEM Cymru gyllideb o £48.65 miliwn.

¹⁰ Thomas Glyn Watkin, n. 4 uchod, 196.

Er mor hanfodol yw'r sector cyfiawnder, nid yw'n cael ei eithrio o'r pwysau ariannol presennol ac rydym yn wynebu toriadau mawr. Yn arbennig, ar 23 Mehefin 2010, cyhoeddodd GLIEM gynigion i gau tri ar ddeg o lysoedd ynadon a thri o lysoedd sirol yng Nghymru. Cynigion yw'r rhain ar y funud ac maent yn destun ymgynghori. Gobeithiaf y bydd ymatebion helaeth a gwybodus yn ystod y cyfnod ymgynghori cyn i'r Arglwydd Ganghellor wneud ei benderfyniad yn yr hydref. Mae'n hollol ddealladwy bod y cynigion hyn yn peri gwir bryder yn yr ardaloedd dan sylw. Fodd bynnag, gallaf eich sicrhau bod y Barnwyr Llywyddol a GLIEM Cymru'n ystyriol iawn o anghenion penodol Cymru wledig o ran mynediad at gyfiawnder.

Mae'r farnwriaeth a'r Gwasanaeth Llysoedd yn gweithio mewn cysylltiad agos â chyrrff ac asiantaethau eraill yn y sector cyfiawnder. Nid oes digon o amser i sôn am bob un ohonynt. Maent yn cynnwys yr heddlu, Ymddiriedolaeth Prawf Cymru, Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwy'r, Gwasanaeth Erlyn y Goron, crwneriaid, y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol, Cymdeithas y Cyfreithwyr a'r Bar.

Ni allai'r llysoedd weithredu heb y cyfreithwyr proffesiynol sy'n cynnig cyngor a chynrychiolaeth i rai sy'n rhan o faterion sifil neu droseddol Mae pum ysgol gyfreithiol yng Nghymru bellach. Heddiw, mae 2,606 o dwrneiod yn gweithio yng Nghymru a 345 o fargyfreithwyr sy'n aelodau o Gylchdaith Cymru a Chaer Mae'r newidiadau sy'n digwydd ar hyn o bryd yn cynnig cyfleoedd gwych i ddwy gangen y proffesiwn Yn arbennig, mae rhai aelodau o'r Bar wedi manteisio ar y cyfle a ddaeth yn sgil y Llys Gweinyddol yng Nghymru, ond mae arnom angen llawer mwy i ddatblygu arbenigedd ym maes cyfraith gyhoeddus, fel bod cynrychiolwyr a chyngor yn y maes hanfodol hwn ar gael yn rhwydd yng Nghymru.

Y Llys Gweinyddol yng Nghymru.

Y lle cyntaf y daw'r llysoedd i'r cysylltiad mwyaf uniongyrchol â deddfau'r sefydliadau datganoledig a chyrrff llywodraeth leol yng Nghymru yw yn y Llys Gweinyddol, lle gwrandewir heriau i gyfreithlondeb deddfau cyrrff cyhoeddus. Rhoddodd adroddiad Jones Parry bwyslais penodol ar yr angen i ddyfarniadau a rhwymedïau yn y maes hwn o reolaeth farnwrol dros weithrediad gweinyddol, fod

ar gael yn rhwydd yng Nghymru.¹¹ Credaf ein bod eisoes wedi gwneud cynnydd da yn hyn o beth o ganlyniad i'r trefniadau newydd ar gyfer eisteddiadau'r Llys Gweinyddol yng Nghymru.

Gyda cham cyntaf datganoli dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, cydnabuwyd yn syth ei bod yn hanfodol i benderfyniadau'r sefydliadau newydd a chyrrff cyhoeddus eraill yng Nghymru gael eu rhoi gerbron, eu gwrandao a'u penderfynu yng Nghymru. O ganlyniad, gwnaed trefniadau i'r Llys Gweinyddol eistedd yng Nghymru. Dyna'r tro cyntaf i'r Llys Gweinyddol eistedd yn rheolaidd tu allan i Lundain.

Yn y blynyddoedd yn dilyn, gwrandawyd nifer sylweddol o geisiadau am adolygiad barnwrol yn y Llys Gweinyddol yn eistedd yng Nghymru dan y trefniadau hynny. Roeddynt yn cynnwys achosion yn erbyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Gweinidogion Cymru ac awdurdodau lleol. Roeddynt yn ymdrin ag ystod eang o bynciau yn cynnwys, er enghraifft, dilysrwydd gorchymyn pysgodfeydd môr, y dehongliad cywir o reoliadau'r Undeb Ewropeaidd ar y polisi amaethyddol cyffredin, cyfreithlondeb dosbarthiad safleoedd tirlenwi, a thynged Shambo, tarw'r Deml Hindŵaidd.¹² Cynhaliwyd y gwrandawiaidau yng Nghanolfan Llysoedd Sifil Caerdydd yn bennaf, ond hefyd mewn llysoedd eraill yng Nghymru. Ym mis Tachwedd 2006, yn achos **Cynulliad Cenedlaethol Cymru v Condron**¹³ yn ymwneud â chaniatâd cynllunio ar gyfer mwyngloddio brig yn Ffos y Frân ger Merthyr Tudful a wrandawyd yn y llys gwrandawriad cyntaf, ac ar apêl, yn Llundain, dywedodd y Llys Apêl fod yr achos yn gwir alw am wrandawriad yng Nghymru, yn y llys gwrandawriad cyntaf ac ar apêl, a mynegodd cryn siom nad oedd hyn wedi digwydd. Ym mis Hydref 2007, yn **R (Deepdock Limited ac eraill) v Gweinidogion Cymru**¹⁴ pwysleisiodd y Llys Gweinyddol y dylai heriau

¹¹Adroddiad Confensiwn Cymru Gyfan, paragraff 3.9.22

¹²**R (Pwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru) v Cynulliad Cenedlaethol Cymru** Dyfarnarniad, 21 Rhagfyr, 2001 (dilysrwydd gorchymyn pysgodfeydd môr); **R (Swami Suryananda) v Gweinidogion Cymru** [2007] EWHC 1736 (ystyried a oedd gorchymyn i ddifa tarw teml Hindŵaidd yn gydnaws ag Erthygl 9 ECHR): Eisteddodd y Llys Apêl yng Nghaerdydd i wrandaw'r achos hefyd; gweler [2007] EWCA Civ 893; **R (Gwillim) v Gweinidogion Cymru** [2009] EWHC 2946 (Admin) (dehongliad cywir o reoliadau'r Undeb Ewropeaidd ar gymorthdaliadau dan y polisiâu amaethyddol cyffredin); **R (Cyngor Dinas Casnewydd) v Gweinidogion Cymru** [2009] EWHC 3149 (Admin) (cyfreithlondeb dosbarthiad safleoedd tirlenwi i awdurdodau gwaredu gwastraff).

¹³[2006] EWCA Civ 1573, per Richards L.J. at paragraff 110

¹⁴[2007] EWHC 3347.

i benderfyniadau a wnaed mewn ardal ddatganoledig gan awdurdod cenedlaethol Cymreig, megis Gweinidogion Cymru, neu awdurdod lleol yng Nghymru, gael eu gwrandawr yng Nghymru oni bai bod rheswm da dros gynnal y gwrandawriad yn rhywle arall. Roedd y penderfyniadau hyn yn gerrig milltir pwysig yn natblygiad adolygu barnwrol yng Nghymru.

Ym mis Ebrill 2009 disodlwyd y trefniadau hyn fel rhan o gyfres o ddiwygiadau yn dilyn argymhellion adroddiad Syr Anthony May ar gyfiawnder gweinyddol tu allan i Lundain. Er bod y strwythur newydd yng Nghymru'n debyg iawn i'r un a fabwysiadwyd yn Birmingham, Manceinion a Leeds, sef y prif ganolfannau eraill tu allan i Lundain lle mae'r Llys gweinyddol yn eistedd bellach, mae gan y trefniadau a osodwyd yng Nghymru arwyddocâd a phwysigrwyd ychwanegol gan eu bod yn gweithredu yng nghyd-destun datganoli yng Nghymru.

Bu i'r Llys Gweinyddol ar ei newydd wedd yng Nghymru agor ar gyfer busnes ar 27 Ebrill 2009. Newid allweddol sydd wedi digwydd yw bod y llys bellach yn cael ei weinyddu gan dîm yng Nghanolfan Llysoedd Sifil Caerdydd yn hytrach nag yn y Llysoedd Barn Brenhinol yn Llundain. Mantais y trefniadau newydd yw bod y Llys yn gallu gweithredu'n fwy effeithlon a darparu gwasanaeth yn fwy cyflym.

Bellach, mae angen gwneud rheolau ynglŷn â ble y bydd achosion yn cael eu gwrandawr.¹⁵ Nid oes rheol bendant yn nodi bod rhaid gwrandawr achos o Gymru yng Nghymru, ond y mae polisi barnwrol pendant ynglŷn â throsglwyddo a fydd yn sicrhau y bydd achosion o Gymru yn y dyfodol, yn cael gwrandawriad yng Nghymru fel rheol. Wedi i achos gael ei neilltuo i Gymru, bydd yn cael ei weinyddu a'i benderfynu mewn llys addas yng Nghymru, gan farnwr o'r Llys Gweinyddol. Gwnaed trefniadau yng Nghymru i alluogi'r Llys Gweinyddol i eistedd mewn unrhyw ganolfan llysoedd, fel y bo'n briodol. Mae'r canolfannau llysoedd yng Nghaernarfon, Caerdydd, yr Wyddgrug ac Abertawe wedi eu dynodi fel rhai addas ar gyfer y gwrandawriadau. Yng Nghaerdydd mae achosion Llys Gweinyddol yn cael eu gwrandawr amlaf, ond gwrandawr achosion yn y canolfannau llysoedd dynodedig eraill hefyd.¹⁶

¹⁵Cyfarwyddyd Ymarfer 54D
Administrative Court in Wales; Identification of Court Centres at which the Administrative Court may sit; Hysbysiad 19 Mai 2009

¹⁶Administrative Court in Wales; Identification of Court Centres at which the Administrative Court may sit; Hysbysiad 19 Mai 2009

Pob tymor, bydd o leiaf dau Farnwr Uchel Lys enwebedig, gan gynnwys Barnwr Cyswllt Mainc y Frenhines, yn gwrando achosion cyfraith gyhoeddus yng Nghymru am ran o'r tymor. At hynny, gwrandewir achosion gerbron y Llys Gweinyddol yng Nghymru gan un o saith Barnwr Cylchdaith Cymraeg, neu un o bedwar Cofiadur CF Cymraeg, sydd i gyd yn eistedd fel Dirprwy Farnwyr Uchel Lys yn y Llys Gweinyddol yn Llundain ac yng Nghymru.

Mae'r gwasanaeth a ddarperir gan y Llys Gweinyddol yng Nghymru yn hollol ddwyieithog. Mae'r holl ffurflenni ar gyfer achosion cyfraith gyhoeddus wedi eu cyfieithu i'r Gymraeg gan Uned Iaith GLIEM, ac maent ar gael yn rhwydd. At hynny, ceir barnwyr sy'n gallu cynnal gwrandawiadau yn Gymraeg.

Yn ystod y flwyddyn gyntaf y bu'r Llys Gweinyddol yn eistedd yng Nghymru dan y trefniadau newydd, cynhaliwyd 178 o achosion yno, yn cynnwys 39 o achosion a drosglwyddwyd o Lundain i Gymru. Tri achos yn unig a drosglwyddwyd o Gymru. Mae'r achosion a gynhaliwyd yn y Llys Gweinyddol yng Nghymru yn ystod y flwyddyn gyntaf yn cynnwys achosion yn ymwneud ag anifeiliaid, amaethyddiaeth, cynnal plant, gofal yn y gymuned, addysg, tai, mewnfudo a lloches, llywodraeth leol, iechyd meddwl, pwerau'r heddlu, carchardai, iechyd y cyhoedd a chynllunio.

Mae'n ddiddorol nodi pa mor gyflym y mae'r newid mawr hwn wedi digwydd. Nid oedd angen deddfwriaeth ond mae wedi esblygu i fodloni anghenion sy'n newid. Mae'r Llys Gweinyddol yng Nghymru ar ei newydd wedd, yn adnodd cenedlaethol pwysig a fydd yn gwneud cyfraniad mawr at weinyddu cyfiawnder ac at weinyddiaeth gyhoeddus yng Nghymru. Un o amcanion pwysicaf y trefniadau newydd yw sicrhau mynediad rhwydd at gyfiawnder ym maes cyfraith gyhoeddus, ac mae'n debygol y bydd y trefniadau'n hwyluso'r broses o drefnu a rheoli achosion cyfraith gyhoeddus yn effeithlon yng Nghymru. Wrth eu defnyddio yng Nghymru ddatganoledig, mae'n amlwg bod dimensiwn hanfodol arall iddynt. Y gobaith yw y byddant yn parhau i ddarparu fframwaith priodol ar gyfer rheolaeth gyfreithiol dros weithredu gweinyddol wrth i'r setliad datganolu esblygu.

Yr Uwch Farnwriaeth, Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

Yn ffodus, nid yn y Llys Gweinyddol yn unig y bydd y farnwriaeth a'r swyddogion gweithredol yn dod i gysylltiad. Mae'r uwch farnwriaeth mewn cysylltiad cyson â Gweinidogion yn Whitehall. Yn arbennig felly, mae'n arfer gan Lywodraeth Ei Mawrhydi i ymgynghori â'r Arglwydd Brif Ustus ac uwch farnwyr eraill ynglŷn â gweithrediad ymarferol polisi a chynigion deddfwriaethol sy'n effeithio ar weithrediad y system cyfiawnder yng Nghymru a Lloegr, ac yn arbennig ar y cynigion sy'n effeithio ar Wasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi. Mae ymgynghori fel hyn yn adlewyrchu'r ffaith fod y farnwriaeth yn gyfrifol am ei changen o'r wladwriaeth ac yn gyson â safiad cyfansoddiadol newydd yr Arglwydd Brif Ustus fel Pennaeth y Farnwriaeth yng Nghymru a Lloegr.

Mae'r newidiadau diweddar yn llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn addas i'r broses ymgynghori adeiladol hon gael ei dyblygu yn y berthynas rhwng yr Arglwydd Brif Ustus a Gweinidogion Cymru. Felly, yn ddiweddar y mae cyfarfodydd wedi eu cychwyn rhwng yr Arglwydd Brif Ustus a Phrif Weinidog Cymru, y Cwnsler Cyffredinol ac Ysgrifennydd Parhaol y Swyddfa Gymreig. Mae'r cyfarfodydd hyn yn rhoi'r cyfle i ymgynghori ar faterion sy'n effeithio ar weinyddiaeth y llysoedd, sy'n debygol o achosi newidiadau i unrhyw gangen o gyfraith droseddol neu sy'n effeithio ar weithrediad cangen farnwrol y llywodraeth yng Nghymru Gobeithiaf y bydd sianeli cyfathrebu tebyg yn cael eu sefydlu rhwng y farnwriaeth a'r Cynulliad Cenedlaethol a'i Bwyllgorau cyn hir. Yn y ffordd hon, rydym yn cymryd y camau cyntaf mewn proses lle mae'r farnwriaeth yn gallu cydweithio'n effeithiol â Llywodraeth Cynulliad Cymru ac â Chynulliad Cenedlaethol Cymru a chyrrff eraill sydd â diddordeb mewn cyfiawnder yng Nghymru.

Wrth gwrs, mae'n rhaid i'r trafodaethau hyn ddigwydd o fewn cyfyngiadau priodoldeb cyfansoddiadol. Nid yw'r farnwriaeth yn gallu rhoi sylwadau ar addasrwydd polisiâu'r llywodraeth na chyfrannu at unrhyw drafodaeth sy'n debygol o arwain at gyfreitha. Yn fwy cyffredinol, mae'n bwysig sicrhau ymwybyddiaeth o safle cyfansoddiadol y farnwriaeth yn y cyswllt hwn. Fel barnwyr, nid ein lle ni yw cymryd unrhyw ran yn y ddadl wleidyddol ynglŷn â'r ffordd y mae cyfansoddiad Cymru'n datblygu. Fe wnaeth yr Arglwydd Brif Ustus y pwynt hwn yn glir yn ei ddarlith i gynhadledd Cymru'r Gyfraith fis Hydref diwethaf yng Nghaerdydd pan ddywedodd hyn:

“The way in which justice will be administered in Wales in the end will I hope be determined by the way in which the constitution of Wales actually develops, rather than by some anticipation of the way in which it might develop, or which some might hope that it would develop. Ultimately the constitutional issues are for political not judicial decision. To be legitimate, any legal system needs to keep pace with and reflect political changes, but I respectfully suggest that the legal system cannot be manoeuvred so that it can be seen to be a force for change or against change, or any particular direction of change, or as advancing or supporting the views of one or other of the different sides of the arguments all legitimately advanced in a democracy by the protagonists.

...

That is not my view as Lord Chief Justice of Wales and England: that represents my view as Lord Chief Justice of Wales. Judges cannot force the pace nor can they obstruct developments based on the ballot box and the constitution. We must be neutral. Nothing comes without a price, and one of the foundations on which the respect for the independence of the judiciary is based in this country is that judges cannot be catalysts for political change.”¹⁷

Fodd bynnag, aeth yn ei flaen i bwysleisio mai'r hyn y gall y farnwriaeth ei wneud, a'r hyn y gall ei wneud yn gyfreithlon yng nghyd-destun Cymru, yw ymateb i'r ffaith fod datganoli'n digwydd a'r newidiadau sydd eisoes wedi digwydd ac sydd bellach yn rhan o'r cyfansoddiad. Gobeithiaf y bydd yn amlwg o'r hyn sydd gen i i'w ddweud p'nawn 'ma, fod y barnwyr yn ymwybodol iawn o'r newidiadau sy'n digwydd a'u bod, beth bynnag a fydd yn digwydd, yn awyddus i sicrhau bod y system gyfreithiol a'r farnwriaeth yn gallu addasu i gyfarfod anghenion pobl Cymru dan gyfansoddiad sy'n newid.

Datblygiad diweddar arall yn y cyswllt hwn yw penderfyniad yr Arglwydd Brif Ustus ym mis Ebrill eleni i sefydlu Pwyllgor y mae ef yn ei gadeirio, i'w gynghori ar faterion Cymru. Mae'r Pwyllgor yn rhan o strwythur Cyngor y Barnwyr. Bydd

¹⁷Yr Arglwydd Judge, Arglwyd Brif Ustus, Darlith i Gynhadledd Cymru'r Gyfraith, Caerdydd, 9 Hydref 2009. <http://www.judiciary.gov.uk/docs/speeches/lcj-legal-wales-conf.pdf>

y Pwyllgor yn hwyluso cysylltiadau rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru a Barnwriaeth Cymru a Lloegr. Yn benodol, bydd y pwyllgor yn ystyried ac yn cynnig cyngor i'r Arglwydd Brif Ustus ar arwyddocâd y polisiâu, cynigion neu ddeddfwriaeth newydd a ddaw o Lundain neu Gaerdydd, o ran gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru.

Mae aelodaeth y Pwyllgor yn cynnwys yr Arglwydd Brif Ustus, Uwch Farnwr Cymru, barnwyr Cymru sy'n aelodau o'r Bwrdd Gweithredol Barnwrol, Uwch Farnwr Llywyddol Cymru a Lloegr, Barnwyr Llywyddol Cymru, y Barnwr Cyswllt â'r Adran Teulu, Ysgrifennydd Cymdeithas Barnwyr Cymru, a chynrychiolwyr o Fainc y Gylchdaith, Mainc y Rhanbarth, y Tribiwnlysoedd a'r Ynadaeth yng Nghymru. Mae Clare Pillman, Cyfarwyddwr GLIEM Cymru yn mynychu'r cyfarfodydd hefyd. Ysgrifennydd y Pwyllgor yw Ysgrifennydd Cyfreithiol yr Arglwydd Brif Ustus, sef Rebecca Williams o Donypandy.

Mae sefydlu'r pwyllgor hwn a chychwyn y cysylltiadau newydd hyn rhwng y farnwriaeth a'r sefydliadau datganoledig yn cydnabod ymhellach bod rhaid gwneud darpariaeth arbennig ar gyfer Cymru o fewn y system gyfreithiol a rennir gan Cymru a Lloegr. Maent yn paratoi mwy o enghreifftiau o'r ffyrdd y mae'r gangen farnwrol yn addasu er mwyn bodloni anghenion newidiol Cymru ddatganoledig. Credaf y bydd y mesurau hyn yn gam pwysig tuag at fodloni argymhelliad Confensiwn Cymru Gyfan y dylai gweinyddiaeth y gyfraith yng Nghymru fod yn fwy sensitif i ddatganoli.

Tribiwnlysoedd

Hyd yma, nid wyf wedi dweud dim bron am sefydliad cyfreithiol sy'n chwarae rôl hanfodol ym mywydau llawer o bobl yng Nghymru. Tribiwnlysoedd arbenigol yn hytrach na'r llysoedd sy'n delio â llawer o anghydfodau cyfreithiol. Dyma faes lle gwelwyd newidiadau aruthrol yn ddiweddar. Mae ailstrwythuro sylweddol wedi digwydd yn y system tribiwnlysoedd ledled y Deyrnas Unedig. Ond yng Nghymru, mae'r newidiadau wedi bod yn fwy sylfaenol fyth o ganlyniad i ddatganoli.

Roedd cam cyntaf datganoli dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 yn datganoli cyfrifoldeb gweithredol am feysydd polisi a oedd yn cynnwys addysg, iechyd, a gwasanaethau cymdeithasol a thai. Roedd hyn yn cynnwys trosglwyddo cyfrifoldeb gweithredol am dribiwnlysoedd sy'n delio â'r meysydd polisi hynny yng Nghymru. Rhoddwyd pŵer i'r Cynulliad Cenedlaethol greu tribiwnlysoedd

newydd a mecanweithiau apelio hefyd mewn rhai meysydd polisi datganoledig. O ganlyniad, mae tribiwnlysoedd sy'n gweithredu yng Nghymru bellach yn disgyn i ddau categori: Tribiwnlysoedd Cymru sy'n gweithredu mewn meysydd lle mae cyfrifoldeb gweithredol wedi ei ddatganoli, a Thribiwnlysoedd Trawsffiniol sy'n gweithredu mewn meysydd lle nad yw wedi ei ddatganoli. Mae'r cyntaf - sef Tribiwnlysoedd Cymru – yn cynnwys y Tribiwnlys Tir Amaethyddol (Cymru), y Paneli Annibynnol ar gyfer Cwynion am Wasanaethau Cymdeithasol, y Byrddau Iechyd Lleol yng Nghymru (mewn perthynas â rhai swyddogaethau), Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru, y Tribiwnlys Eiddo Preswyl, Paneli Apêl Derbyn a Gwahardd Ysgolion, Tribiwnlys Anghenion Addysg Arbennig Cymru, a Thribiwnlysoedd Prisio Cymru. Cyn hir, bydd Tribiwnlys y Gymraeg, wedi ei greu yn sgil Mesur y Gymraeg yn ymuno â'r rhain.

Mae'r ffaith fod tribiwnlysoedd Cymru wedi datblygu ar sail ad hoc wedi arwain at system dameidiog, gydag amrywiadau eang mewn sawl maes, gan gynnwys prosesau penodi, cyllidebau, hyfforddi a gwerthuso, a chefnogaeth i ddefnyddwyr. Ym mis Ionawr 2010, cyhoeddodd Pwyllgor Cymru ar gyfer y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd, adroddiad¹⁸ a oedd yn tynnu sylw at y diffygion hyn ac yn gwneud argymhellion pellgyrhaeddol ar gyfer moderneiddio a datblygu tribiwnlysoedd Cymru. Nid oes digon o amser heddiw i edrych ar bob un o'r argymhellion hyn.

Fodd bynnag, rwyf am sôn am broblem ganolog y mae'r Adroddiad yn tynnu sylw ati. Mewn nifer o sefyllfaoedd, mae cyfrifoldeb am y Tribiwnlysoedd a'u gweinyddiaeth yn nwylo adrannau o Lywodraeth Cynulliad Cymru sydd â'u penderfyniadau yn cael eu hystyried gan y Tribiwnlysoedd. Mae'r Adroddiad, yn briodol, yn beirniadu hyn, gan ddweud ei fod yn annerbyniol. Rhaid i dribiwnlysoedd fod yn annibynnol ar Adrannau'r Llywodraeth sy'n gysylltiedig â hwy. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi derbyn y pwynt hwn ac mae wedi derbyn yr argymhelliad i gael un canolbwynt o fewn Llywodraeth y Cynulliad – yn annibynnol ar yr adrannau cysylltiedig – yn gyfrifol am bennu polisiâu mewn perthynas â Thribiwnlysoedd Cymru ac ar gyfer eu gweinyddiaeth.

¹⁸Pwyllgor Cymru ar gyfer y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd, *Review of Tribunals Operating in Wales*, January 2010. Adroddiad i Weinidogion Cymru yn dilyn paragraff 19(4) Atodlen 7 Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodi 2007. Gweler hefyd Syr John Thomas, *Our Changing Governance Structures: Clarity And Confidence*, Canolfan Llywodraethiant Cymru, Mawrth 2010. <http://devolutionmatters.wordpress.com/2010/03/26/lord-justice-thomass-st-dauids-day-lecture/>

Mewn datblygiad mwy diweddar, cyhoeddwyd bod y Gwasanaeth Llysoedd a'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd ledled Cymru a Lloegr i uno. Os gweithredir hyn, bydd y Tribiwnlysoedd Trawsffiniol, o ran eu gwaith yng Nghymru, yn cael eu gweinyddu gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd ar y Cyd wedi ei leoli yng Nghaerdydd a'r Wyddgrug. Efallai y byddai'n briodol hefyd i'r corff hwn weinyddu Tribiwnlysoedd Cymru ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru.¹⁹

Yr Iaith Gymraeg a'r Llysoedd.

Y mater olaf rwyf yn dymuno rhoi sylw iddo yw'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn y llysoedd yng Nghymru.

Un o'r rhesymau yr oedd Deddf Uno 1536 yn ei roi am gynnwys Cymru yn Nheyrnas Lloegr oedd:

“the People of the same Dominion have and do daily use a Speech nothing like, nor consonant to the natural Mother Tongue used within this Realm”.

O ganlyniad, yn ogystal â nodi bod Cymru i gael ei chyfeddiannu, roedd y statud yn cynnwys hefyd, y gwaharddiad iasoer canlynol:

“that from henceforth no Person or Persons that use the Welsh Speech or Language shall have or enjoy any Manner Office or Fees within this Realm of England, Wales or other the King's Dominions”.

Roedd y gwaharddiad, wrth gwrs, yn cynnwys swyddi barnwrol.

Roedd Adroddiad y Llywodraeth ar Addysg yng Nghymru a gyhoeddwyd ym 1847 yn adleisio hyn yn glir:

“The evil of the Welsh language ... is obviously and fearfully great in courts of justice ... It distorts the truth, favours fraud, and abets perjury, which is frequently practised in courts, and escapes detection through the loop-holes of interpretation ... The mockery of an English trial of a Welsh criminal by a Welsh jury, addressed by counsel and judge in English is too gross and shocking to need comment. It is nevertheless a mockery which must continue until the people are taught the English language...”²⁰

¹⁹Gweler Syr Roderick Evans, n. 3 uchod, ar dudalen 8

²⁰Report of the Commissioners of Inquiry into the State of Education in Wales: Accounts and Papers, 1847, Cyfrol 27, Pt. ii, 66.

Roedd yr ateb yn amlwg – rhoi diwedd ar ddefnyddio'r iaith Gymraeg. Brad y Llyfrau Gleision, yn wir.

Mewn gwirionedd, fodd bynnag, mae'n ymddangos bod pobl wedi parhau i ddefnyddio Cymraeg yn llysoedd Barn Cymru. Ym 1965, gwnaeth Pwyllgor Hughes Parry y sylw hwn:

“Though the law was administered in English, the Welsh language was undoubtedly widely used in the law courts from those at the highest level, like the Council of the Marches and the Court of Great Sessions, down to the humblest hundred and manor courts.”²¹

Rwyf yn falch o ddweud bod agwedd mwy goleuedig yn bodoli heddiw. Ym 1999, yn ei ddyfarniad yn y Llys Apêl yn achos **Williams v. Cowell**, cyfeiriodd Arglwydd Brif Ustus presennol Cymru a Lloegr, Arglwydd Ustus Judge fel yr oedd ar y pryd, at y gwaharddiadau ar ddefnyddio Cymraeg yn Neddf Cyfreithiau yng Nghymru 1535, ac ychwanegodd:

“In other words Welsh people appearing in courts in Wales, litigating over problems in their own country, were prohibited from using their own language. Mr Williams and those who support him no doubt regard this legislation, and the subsequent Act of 1542 ... as an outrage... [F]or what it is worth I agree with them.”²²

Mae caniatâu i ymglyfreithwyr, diffynyddion a thystion ddefnyddio'r iaith Gymraeg yn y llys, yr iaith y maent yn ei defnyddio yn eu bywydau o ddydd i ddydd yn

²¹Cmnd. 2785, para. 31; Syr David Williams, n. 5 uchod, p. 168. Mae'n ymddangos, hefyd, ei bod yn cael ei defnyddio'n helaeth mewn Llysoedd Sirol yng Nghymru ers eu creu ym 1846. Gweler Syr John Thomas, n. 6 uchod, pp. 115-8, 136-149. Cafodd cymal iaith 27 Hen. 8 c. 26 ei ddiddymu gan adran 1, Deddf Llysoedd Cymru 1942. Fodd bynnag, nid oedd yr amod hwn yn trafod yr hawl i ddefnyddio Cymraeg yn y llysoedd; y cyfan yr oedd yn ei nodi oedd: "... the Welsh language may be used in any court in Wales by any party or witness who considers that he would otherwise be at any disadvantage by reason of his natural language of communication being Welsh." Gweler **R. v. Ynadon Merthyr Tydfil, ex parte Jenkins** [1967] 1 All ER 636.

²²[2000] 1 WLR 187. Roedd y Llys Apêl yn honni nad oedd sail statudol i ganiatáu cynnal achosion yn Gymraeg yn Llundain. Fodd bynnag, mae'r Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth yn eistedd yng Nghymru bellach. R.G. Parry "Yr Iaith Gymraeg a'r Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth – ystiried y penderfyniad yn **Williams v. Cowell**" (2001) 1 Wales Law Journal 178; Timothy H. Jones a Jane M. Williams, Wales as a Jurisdiction, [2004] Public Law 78, 98. Dylid cymharu dyfarniad Judge L.J. â dyfarniad Widgery U., fel yr oedd ar y pryd, yn **R. v. Ynadon Merthyr Tudful, ex parte Jenkins** [1967] 1 All ER 636

ddim mwy na'r tegwch mwyaf sylfaenol Heddiw, yn unol â Deddfau'r Iaith Gymraeg 1967 a 1993, mae'r Gymraeg, o hawl, yn cael ei defnyddio'n helaeth yn y llysoedd yng Nghymru Caiff ei ddefnyddio fwyaf yn y llysoedd ynadon ac mewn achosion cyfraith teulu, ac, fel y byddech yn ei ddisgwyl, ym mherfeddwlad yr iaith Gymraeg yn y Gogledd a'r Gorllewin, mae hyn yn digwydd fwyaf, ond nid felly bob amser. Ond efallai mai'r marc penllanw hyd yma, yw'r treial llofruddiaeth gerbron Roderick Evans J. yng Nghaernarfon yn 2007. Cynhaliwyd y treial cyfan yn Gymraeg, gyda chyfieithu ar y pryd i Saesneg.

Mae'n destun pryder i mi bod prinder ystadegau dibynadwy i ddangos i ba raddau y mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio gerbron y llysoedd a'r tribiwnlysoedd yng Nghymru. Nid yw hyn o ddiffyg ymdrech. Ar hyn o bryd mae'r Gwasanaeth Llysoedd yn cynnal arolwg ar ddefnyddio'r Gymraeg yn y llysoedd yng Nghymru. Yr hyn sy'n anodd wrth geisio ffigyrau dibynadwy yw'r ffaith fod ymgyfreithwyr, tystion a chyfreithwyr yn tueddu i newid o un iaith i'r llall yn ystod y gwrandawriad, yn y ffordd mwyaf naturiol. O ganlyniad, credaf fod y ffigyrau sydd ar gael yn awgrymu bod y Gymraeg yn cael ei defnyddio lawer llai yn y llys nag y mae mewn gwirionedd.

Mae materion polisi sy'n ymwneud â'r defnydd o'r Gymraeg yn y sector cyfiawnder, yn cael eu hystyried gan Bwyllgor Sefydlog yr Arglwydd Ganghellor ar yr Iaith Gymraeg yr wyf i yn ei gadeirio. Mae o fantais fawr i'r corff hwn, sy'n cynghori'r Arglwydd Ganghellor, ei fod yn cynnwys aelodau o'r holl gyrff yng Nghymru sy'n delio â gweinyddu cyfiawnder, ynghyd ag aelodau o Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Ar lefel ymarferol, sefydlwyd Rhwydwaith Cyfiawnder Cymru i alluogi asiantaethau cyfiawnder i rannu arferion da o ran hyfforddiant iaith a darparu gwasanaeth dwyieithog, ac i gydlunu ymdrechion i rannu adnoddau.

Yn y 1990au cynnar, sefydlodd y Gwasanaeth Llysoedd Uned Iaith Gymraeg gyda chyfrifoldeb am gyfieithu. Mae'r uned wedi tyfu tu hwnt i adnabyddiaeth, ac mae bellach wedi symud o Gaergybi i swyddfa yn yr adeilad llys newydd yng Nghaernarfon. Mae'n adnodd pwysig ar gyfer gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru, a hoffwn dynnu sylw at y cyfraniad anferth y mae wedi ei wneud dan Hywel Hughes, Pennaeth yr Uned. Hoffwn dalu teyrnged i'r rhai sy'n cyfieithu yn

ein llysoedd hefyd. Maent yn cynnig gwasanaeth hynod broffesiynol sy'n golygu ei bod yn bosib delio ag achosion Cymraeg yn effeithlon ac yn deg.

Ar hyn o bryd, y mae deuddeg Barnwr Cylchdaith, deg Barnwr Rhanbarth, pymtheg Dirprwy Farnwr Rhanbarth, a thri ar ddeg o Gofiaduron yn gallu cynnal achosion yn Gymraeg. Felly, mae yna hanner cant o Farnwyr sy'n siaradwyr Cymraeg. Mae llawer o farnwyr eraill yn dysgu Cymraeg, ac yn gallu deall digon o'r iaith i allu dilyn tystiolaeth sy'n cael ei roi yn Gymraeg. Mae'n hanfodol, wrth gwrs, bod gennym ddigon o farnwyr i gyfarfod yr angen cynyddol. Mae'r Bwrdd Astudiaethau Barnwrol yn cynnig hyfforddiant arbenigol ar gyfer barnwyr ar y defnydd o'r iaith Gymraeg yn y llys. Yn y blynyddoedd diweddar, rydym wedi cynnal cyrsiau blynyddol sydd wedi gwneud llawer iawn i wella sgiliau a rhuglder siaradwyr Cymraeg y farnwriaeth. Mae'r ffaith fod cynifer o farnwyr Cymru'n siaradwyr Cymraeg yn agwedd arall o statws Cymraeg cryf y farnwriaeth yng Nghymru yr wyf eisoes wedi cyfeirio ati.

Mae gennym Farnwr Cyswllt yr Iaith Gymraeg. Mae ei dyletswyddau'n cynnwys sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg yn cael eu darparu'n llwyddiannus, a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y llysoedd. Mae gan yr iaith Gymraeg ffrind da a hyrwyddwr pybyr yn Ei Hanrhydedd y Barnwr Eleri Rees, sef y Barnwr Cyswllt presennol.

Rwyf yn gwybod bod llawer ohonoch yn y gynulleidfa wedi cael eich siomi gan benderfyniad y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn gynharach eleni, i wrthod cynnig a fyddai'n caniatáu dewis rheithgor sydd â'i haelodau i gyd yn siaradwyr Cymraeg. Mae llawer o wahanol fuddiannau yn chwarae rhan yn hyn. Maent yn cynnwys dymuniad achwynyddion a diffynyddion i roi tystiolaeth o ffaith i'r tribiwnlys yn eu hiaith eu hunain, yr awydd i annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg, pwysigrwydd yr egwyddor o ddewis rheithgor ar hap, yr angen i ddarparu trefn effeithlon ar gyfer dewis rheithgor, yr angen i gadw hyder yn y system o dreial gan reithgor ac, yn bwysicaf oll, yr angen i sicrhau bod diffynnydd yn cael gwrandawriad teg. Yn y canlyniad, pwysigrwydd dewis rheithgor ar hap fu'n drech. Yn ei chyhoeddiad ar 9 Mawrth 2010, fe wnaeth y Gweinidog dros Gyfiawnder gyfiawnhau'r penderfyniad, ar y sail bod rhaid dewis rheithgor ar hap o'r gymuned gyfan, ac y byddai eithrio rhai nad ydynt yn gallu siarad Cymraeg o reithgor, yn eithrio oddeutu pedair rhan

o bump o boblogaeth Cymru. Mae hwn yn faes dadleuol iawn ac nid oes gennyf unrhyw amheuaeth y bydd y dadlau'n parhau.

O ran penodi i'r farnwriaeth, mae'n bosib nodi bod y gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol ar gyfer swyddi penodol, a bydd hynny'n digwydd yn aml. Yn gyffelyb, yn dilyn menter gan Bwyllgor Sefydlog yr Arglwydd Ganghellor ar yr Iaith Gymraeg, cyhoeddodd y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn gynharach yn y flwyddyn y bydd hi'n bosib, yn y dyfodol, hysbysebu am ynadon sy'n siaradwyr Cymraeg. Ar hyn o bryd mae 350 o ynadon sy'n siaradwyr Cymraeg, a bydd y cyhoeddiad yn sicrhau ein bod yn gallu cynnal yr ynadaeth sy'n siarad Cymraeg ar y lefel honno o leiaf.

Ni allaf honni mai stori llwyddiant yw hon drwyddi draw. Yn benodol, rydym wedi cael trafferthion mawr wrth geisio cyflwyno systemau technoleg gwybodaeth sy'n darparu gwasanaeth dwyieithog. Fodd bynnag, credaf fod llawer iawn wedi ei gyflawni'n barod, a gallaf eich sicrhau bod yna ymrwymiad gwirioneddol i fodloni'r galw cynyddol i ddarparu gwasanaethau llys yn Gymraeg.

Casgliad

Rydym yn ffodus iawn ein bod yn byw mewn cyfnod hynod ddiddorol yn hanes Cymru. Fel Cymro, rwyf yn llawenhau yn yr adfywiad sydd wedi digwydd mewn cymaint o wahanol agweddau o fywyd yng Nghymru yn y blynyddoedd diweddar, ond, yn bennaf oll, rwy'n ymhyfrydu yn adfywiad yr iaith Gymraeg, sy'n elfen hanfodol o'n hunaniaeth fel cenedl.

Yn y ddarlith hon ddwy flynedd yn ôl, bu i Carwyn Jones, y Cwnsler Cyffredinol ar y pryd, Prif Weinidog Cymru bellach, sôn am yr angen am sefydliadau cyfiawnder sy'n cael eu rheoli'n lleol, sy'n ymateb i anghenion Cymru, ac sy'n gyfarwydd â'r gyfraith sy'n berthnasol i Gymru.²³ Gobeithiaf ei bod yn amlwg o'r hyn a ddywedais bnawn heddiw, fod peirianwaith cyfiawnder yng Nghymru yn addasu i ateb gofynion y newidiadau sy'n digwydd. Fel yr oedd Confensiwn Cymru Gyfan yn casglu, "mae cysyniad cynyddol bod gan Gymru ei phersonoliaeth gyfreithiol ei hun".²⁴ Hefyd, er nad lle'r farnwriaeth yw hi i wthio newid cyfansoddiadol yng

²³Carwyn Jones AC., n. 1 uchod, at p. 13.

²⁴Adroddiad Confensiwn Cymru Gyfan, paragraff 3.9.22.

Nghymru, mae'n hanfodol fod yr uwch farnwriaeth yn effro i'r sefyllfa, er mwyn sicrhau bod peirianwaith cyfiawnder yn parhau i gyfarfod anghenion penodol pobl Cymru wrth i'r broses ddatganoli barhau. Beth bynnag a ddeil y dyfodol, rwy'n hyderus y bydd y farnwriaeth yn ymateb i'r her. Mae ein bod yn gwneud hynny, yn hanfodol er mwyn cynnal rheolaeth y gyfraith sydd, ar ddiwedd y dydd, yn dal yn un o fendithion mawr bywyd yn ein cenedl.